

Targedau i'w Cyflawni, Cynhyrchion ac Amserlen 2020-21

(Rhaglen waith wedi'i hadnewyddu, ar ôl COVID)

Ffrwd waith 2: Model 24/7

Diffinio a datblygu cynnig gofal sylfaenol 24/7 (2020-21)

Gan adeiladu ar lwyddiant allbynnau yn 2019-20 a myfyrio ar y dysgu a'r cyfleoedd a gyflwynir gan COVID, mae'r ffrwd waith 24/7 yn nodi rhaglen waith wedi'i hadnewyddu sy'n mynd i'r afael â'r meysydd blaenoriaeth canlynol:

- Adolygiad o fodelau gwasanaeth (Cartrefi Gofal, Adsefydlu ac Ysbytai Cymunedol)
- Diffinio gofynion seilwaith (drwy lwybrau)
- Modelau mynediad
- Ymgysylltiad y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol (parhad)

Er mwyn sicrwydd rhanddeiliaid, mae'r holl dargedau i'w cyflawni blaenorol wedi cael eu hadolygu; a phob un wedi cael statws o naill ai:

- Wedi'i gwblhau
- Wedi'i uno / 'diangen' o ganlyniad i COVID.

Mae cyfeirnodau ID at ddibenion olrhain y Swyddfa Rheoli Prosiectau – ni fyddant o reidrwydd yn rhedeg mewn trefn, ac nid ydynt ychwaith yn cynrychioli unrhyw drefn flaenoriaeth .

Targedau i'w Cyflawni 2020-21:

ID	Teitl y Targed i'w Gyflawni	Arwei-nydd	Disgrifiad y Targed i'w Gyflawni	Cynhyrchion i'w cynhyrchu	Llinell amser (gan gynnwys cerrig milltir penodol)	Mesur llwyddiant / Gwerthusiad	Adrannau Eraill Dogfennau Dechrau Prosiect (Nodwch unrhyw fanylion penodol: • Cwmpas ac Eithriadau: • Cyfyngiadau/Rhagdybiaethau: • Rhyngwynebau • Galluogwyr / dibyniaethau: • Risgiau / Problemau • Cynllun cyfathrebu
2.9 Diffinio a datblygu'r cynnig gofal sylfaenol 24/7 Bydd y cynnig gofal sylfaenol yn cael ei ddatblygu a'i ddiffinio drwy'r darnau pwrpasol canlynol o waith:							
2.9a	Fframwaith cartrefi gofal.	CD	Yng ngoleuni COVID, bydd y ffrwd waith yn gweithio er mwyn mynd i'r afael â: ✓ Gwell dealltwriaeth o ofynion preswylwyr cartrefi gofal ✓ Ailadeiladu hyder gyda'r cyhoedd bod cartrefi gofal yn ddiogel ✓ Sicrhau dull mwy cyson ledled Cymru, gan alluogi Darparwyr i gael dealltwriaeth glir o'r gwasanaethau sydd ar gael a sut a phryd i gael gafael arnynt. Canolbwyntir ar: ✓ gyfathrebu a pherthnasoedd ✓ mynediad at wasanaethau gofal iechyd sylfaenol a chymunedol ac at arbenigedd clinigol priodol a pherthnasol a gefnogir gan ymarfer sy'n seiliedig ar dystiolaeth. Dull:	Dogfen: Fframwaith Cartrefi Gofal Cymru Gyfan Adnoddau ategol (e.e. cyfathrebu a chymorth i staff) a ymgorfforir yn y fframwaith Caiff y rhain eu datblygu ar sail cyd-gynhyrchu gan ddefnyddio arbenigedd a sgiliau staff cartrefi gofal wrth gwmpasu'r Fframwaith a'i gyflwyno.	Mehefin 20 - Sefydlu Grŵp Gorchwyl a Gorffen. Cwblhawyd (CD, KP, NW, SM, AR, Gaynor Williams). Gorffennaf 20 – Ymgymryd â'r gwaith o gwmpasu gweithgarwch yn y maes hwn a nodi cynllun prosiect cadarn (CD) Diwedd Awst 20 – Cwblhau'r gwaith o gwmpasu a chynhyrchu'r fframwaith drafft cyntaf. Rhannu â'r Grŵp Gorchwyl a Gorffen am sylwadau. Medi 20 – Fframwaith drafft yn amodol ar adolygiad y Grŵp Cyfeirio Gofal Sylfaenol a Chymunedol (PCCRG). Rhannu â'r a) Pennaeth Gorfal Sylfaenol (HoPC) a b) Cyfarwyddwyr Meddygol Cyswllt (AMDs) am fewnbwn	Cynhyrchu'r Fframwaith Cartrefi Gofal Cymru Gyfan terfynol	Cwmpas: • At ddibenion y targed i'w gyflawni hwn, mae 'Cartrefi Gofal' yn cyfeirio at gleifion oedrannus sy'n preswylio (e.e. 'nyrsio' a/neu 'breswyl'). • Mae'r ffocws ar lunio Fframwaith Cymru Gyfan sy'n nodi dull cyson ac ymatebol o ddarparu gwasanaethau gofal iechyd i hyn mewn cartrefi gofal ar gyfer cefnogi iechyd cleifion. Caiff ei ddatblygu o fewn cyd-destun ehangach comisiynu, a'r gofynion rheoleiddio ac arolygu a nodir yn y Ddeddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (RISCA) ond nid yw'n ceisio dyblygu na disodli'r swyddogaethau statudol hyn • Bydd yr adolygiad yn ystyried yr holl wasanaethau gofal sylfaenol a chymunedol sy'n ofynnol gan breswylwyr cartrefi gofal h.y. Gwasanaethau a ddarperir gan gontractwyr allanol a mynediad at arbenigedd Bwrdd Iechyd yn y gymuned e.e. gofal clwyfau, diabetes ac ati. • Nid yw'r cynnyrch terfynol wedi'i gynllunio i fod yn rhagnodol ond mae'n adnodd ar gyfer cefnogi Byrddau Iechyd gyda'u cyfrifoldeb am gartrefi gofal. Y nod yw sicrhau ymagwedd fwy cyson ar draws

ID	Teitl y Targed i'w Gyflawni	Arwei-nydd	Disgrifiad y Targed i'w Gyflawni	Cynhyrchion i'w cynhyrchu	Llinell amser (gan gynnwys cerrig milltir penodol)	Mesur llwyddiant / Gwerthusiad	Adrannau Eraill Dogfennau Dechrau Prosiect (Nodwch unrhyw fanylion penodol: • Cwmpas ac Eithriadau: • Cyfyngiadau/Rhagdybiaethau: • Rhyngwynebau • Galluogwyr / dibyniaethau: • Risgiau / Problemau • Cynllun cyfathrebu
			1. Cwmpasu – deall gofynion preswylwyr cartrefi gofal a nodi'r gwasanaethau iechyd sydd eu hangen i ymateb i'r gofynion hyn, wedi'u llywio gan arfer gorau. 2. Adnabod y rhyngwyneb ag ALlau/Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC) er mwyn deall y dull system gyfan. 3. Datblygu cyfathrebu ategol.		Hydref 20 – Cyflwyno'r fframwaith i'w gymeradwyo gan Fwrdd y Rhaglen Strategol (SPB). Rhag 20 – Rhyddhau'r fframwaith. Chwefror/Mawrth 21 – gwerthuso'r adborth		ffiniau sefydliadol a sicrhau bod darparwyr cartrefi gofal yn ymwybodol o'r gwasanaethau sydd ar gael i'w cynorthwyo i ddarparu gofal priodol • Bydd y gwaith yn adlewyrchu meddylfryd polisi sy'n dod i'r amlwg ar ddyfodol gofal cymdeithasol a phreswyl yng Nghymru er mwyn sicrhau ei fod wedi'i 'ddiogelu at y dyfodol' a bydd yn parhau i fod yn berthnasol ac yn briodol i'r dyfodol. Rhyngwynebau: • Aliniad agos a monitro i'w gynnal gyda ffrwd waith 1 (targed i'w gyflawni 1.9 – 1.12). • Bydd datblygiad cyfathrebu yn cysylltu â ffrwd waith 5. • Caiff y fframwaith ei lywio gan ddysgu o: o Adolygiad Right-sizing Community Services o Fframweithiau gweithredol Sylfaenol a Chymunedol o D2RA o Adolygiad Gwasanaethau Ychwanegol o Crynodeb Cartrefi Gofal o arfer arloesol a o Chwe Nod ar gyfer Gofal Brys a Gofal Argyfwng o Capasiti Gofal Iechyd a Chymdeithasol: Grŵp Modelu a Monitro

ID	Teitl y Targed i'w Gyflawni	Arwei-nydd	Disgrifiad y Targed i'w Gyflawni	Cynhyrchion i'w cynhyrchu	Llinell amser (gan gynnwys cerrig milltir penodol)	Mesur llwyddiant / Gwerthusiad	Adrannau Eraill Dogfennau Dechrau Prosiect (Nodwch unrhyw fanylion penodol: • Cwmpas ac Eithriadau: • Cyfyngiadau/Rhagdybiaethau: • Rhyngwynebau • Galluogwyr / dibyniaethau: • Risgiau / Problemau • Cynllun cyfathrebu
							o Dulliau polisi sy'n cael eu hasesu gan LlC ar y model ar gyfer gwasanaethau preswyl a gofal cymdeithasol yn y dyfodol o Gwaith sy'n cael ei wneud gan gynrychiolwyr Cadeiryddion, Is-gadeiryddion a Phrif Weithredwyr Byrddau Iechyd a'r Cydffederasiwn er mwyn dylanwadu ar fodel ar gyfer gofal preswyl a chymdeithasol sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn ac sy'n gweithredu'n effeithiol ar draws ffiniau sectoraidd • Bydd gwaith modelu sydd eisoes wedi'i wneud/ar y gweill yn cael ei ystyried. • Cynllun cyfathrebu: Datganiad Rhaglen Strategol ar gyfer Gofal Sylfaenol (SPCC) Safonol* Cynnwys Gofal Cymdeithasol ac AGC drwy negeseuon allweddol llafar. .
2.9b	Fframwaith Adsefydlu	KP	Diffinio adsefydlu gofal sylfaenol 24/7 ac archwilio beth yw'r model gofal sydd ar gael 24/7, ble mae'n cael ei ddarparu a phwy sy'n ei ddarparu yn erbyn y Canllawiau Adsefydlu a'r Model Adsefydlu Gofal Fesul Cam. Dull:	Diffiniad o adsefydlu gofal sylfaenol 24/7 Fframwaith adsefydlu 24/7	Gorffennaf 20 – Nodi cynllun prosiect. Awst 20 – Cwmpasu. Diwedd Medi 20 – Cwblhau'r gwaith cwmpasu a chynhyrchu'r cynhyrchion drafft cyntaf. Rhannu gyda'r gweithgor i gael sylwadau.	Cyhoeddi'r fframwaith. Gwerthuso: Arolwg ar-lein i adolygu a mesur gwerth ac effaith y fframwaith.	Cwmpasu – Bydd y fframwaith yn cyfeirio'n benodol at (a'i nod yw galluogi) camu gwasanaethau 'i fyny' / i lawr' yn ôl yr angen. Galluogwr - Fframwaith Gwerthuso Adsefydlu ac Adnodd Modelu Rhyngwynebau:

ID	Teitl y Targed i'w Gyflawni	Arwei-nydd	Disgrifiad y Targed i'w Gyflawni	Cynhyrchion i'w cynhyrchu	Llinell amser (gan gynnwys cerrig milltir penodol)	Mesur llwyddiant / Gwerthusiad	Adrannau Eraill Dogfennau Dechrau Prosiect (Nodwch unrhyw fanylion penodol: • Cwmpas ac Eithriadau: • Cyfyngiadau/Rhagdybiaethau: • Rhyngwynebau • Galluogwyr / dibyniaethau: • Risgiau / Problemau • Cynllun cyfathrebu
			• Cwmpasu pa waith sydd eisoes yn cael ei wneud yn genedlaethol/yn lleol a sut y gellid cynyddu hyn a/neu ledaenu arfer gorau presennol • Mapio hyn i ardaloedd ac anghenion iechyd y boblogaeth er mwyn deall y dull system gyfan • Mapio hyn yn erbyn y Canllawiau Adsefydlu a'r Model Adsefydlu Gofal Fesul Cam • Ystyried yr effaith a'r gofynion gweithlu		Hydref 20 – Cynhyrchion drafft cyntaf yn amodol ar fireinio a mewnbwn gan rwydweithiau proffesiynol ac adolygiad PCCRG. Rhannu â a) HoPC a b) Cyfarwyddwyr Meddygol Cyswllt am fewnbwn Tachwedd 20 – Cyflwyno'r cynnyrch ar gyfer cymeradwyaeth yr SPB. Diwedd Tachwedd 20 – Rhyddhau'r fframwaith Ionawr – Chwefror 20 – Gwerthuso (arolwg ar-lein).		• Alinio a chyd-ddatblygu penodol gyda ffrwd waith 1 (targed i'w gyflawni 1.12a), ffrwd waith 2 (targed i'w gyflawni 2.9a a 2.9c) a ffrwd waith 4 (targed i'w gyflawni 4.1c a 4.3a) • Caiff y fframwaith ei lywio gan ddysgu gan: o Pecyn hyfforddi a chymorth Adsefydlu Addysg a Gwella Iechyd Cymru (AaGIC) o Adolygiad Right-sizing Community Services a Rhaglen Waith Cam 1 o Chwe Nod ar gyfer Gofal Brys a Gofal Argyfwng o Ysbytai Maes o Cynllun Gwaith Gofal Heb ei Drefnu Gwelliant Cymru o Fframweithiau gweithredol Sylfaenol a Chymunedol o Ymateb i argyfwng iechyd meddwl / adolygiad Iechyd Meddwl cenedlaethol ehangach o D2RA o Adolygiad Gwasanaethau Ychwanegol o Crynodeb Cartrefi Gofal o arfer arloesol a o Capasiti Gofal Iechyd a Chymdeithasol: Grŵp Modelu a Monitro o Mae canllawiau penodol y llywodraeth y cyfeirir atynt yn cynnwys: Rolau Gweithwyr

ID	Teitl y Targed i'w Gyflawni	Arwei-nydd	Disgrifiad y Targed i'w Gyflawni	Cynhyrchion i'w cynhyrchu	Llinell amser (gan gynnwys cerrig milltir penodol)	Mesur llwyddiant / Gwerthusiad	Adrannau Eraill Dogfennau Dechrau Prosiect (Nodwch unrhyw fanylion penodol: • Cwmpas ac Eithriadau: • Cyfyngiadau/Rhagdybiaethau: • Rhyngwynebau • Galluogwyr / dibyniaethau: • Risgiau / Problemau • Cynllun cyfathrebu
							Proffesiynol Perthynol i Iechyd (AHP) wrth reoli COVID, Fframwaith Adsefydlu 2020-21 a anghenion adsefydlu cleifion (ar ôl COVID) Cynllun cyfathrebu: Datganiad SPCC Safonol* gyda chyfathrebu ychwanegol i'r Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol (gweler targed i'w gyflawni 2.7)
2.9c	Gwasanaethau cymunedol sydd â gwelyau cam-i-fyny / cam-i-lawr	LC DU a Nyrsio	Yn unol ag argymhellion yr Adolygiad Right-sizing Community Services, bydd y ffrwd waith yn adolygu'r cynnig cam-i-fyny a cham-i-lawr, yn rhoi diffiniad o 'Wasanaethau Cymunedol sydd â Gwelyau' ac yn datblygu cyfres o wahanol fanylebau cyflenwi gweithredol ar gyfer gofal i gefnogi cam-i-fyny/cam-i-lawr.	Diffiniad o 'wasanaethau cymunedol sydd â gwelyau cam-i-fyny / cam-i-lawr'. Manylebau cyflawni gweithredol ar gyfer Gwasanaethau Cymunedol sydd â Gwelyau - Gofal Cam-i-Fyny Cam-i-Lawr,	Gorffennaf 20 – nodi arweinydd y targed i'w gyflawni a sefydlu grŵp Gorchwyl a Gorffen (LC, NW, DoN, KP, CD, Tracey Williams a Wendy Wilkinson). Llunio cynllun prosiect. Awst 20 – Cwmpasu ac ymgysylltu: gweithio i ddeall beth y gellir ei wneud gyda'r llwybrau sydd eisoes wedi'u sefydlu; sut y gellid eu paratoi i gefnogi cam-i-fyny/cam-i-lawr; a'r cyfan wrth lywio datblygiad y fframwaith Adsefydlu ac ymgysylltu â rhanddeiliaid allweddol. Fel rhan o'r gwaith cwmpasu, bydd unrhyw lwybrau sy'n dod i'r amlwg i	Mabwysiadu / cyfeirio at y modelau o fewn cynlluniau'r Bwrdd Iechyd/Clwstwr.	Cwmpasu – Bydd y model yn cyfeirio'n benodol at (a'i nod yw galluogi) 'cam-i-fyny / cam-i-lawr' gwasanaethau yn ôl yr angen. Problem – Nid oes gan bob bwrdd iechyd/nid yw pob bwrdd iechyd yn cyfeirio at 'ysbytai cymunedol'; felly mae angen ystyried egwyddorion y cynnig a'r iaith yn ofalus. Risg: Ymateb y cyhoedd i 'adolygu' Gwasanaethau Cymunedol sydd â Gwelyau. Lliniaru – ymgysylltu â rhanddeiliaid allweddol i reoli'r neges a mynegi'n glir nod a phwrpas y targed i'w gyflawni hwn. Rhagdybiaeth - Ar ôl ei benodi, bydd y nyrs arweiniol cenedlaethol yn gweithio gyda'r Arweinydd AHP ac yn chwarae rhan ganolog wrth ddatblygu'r fanyleb weithredol. Galluogwr - Gweithdy mewnwelediad modelau gwasanaeth a arweinir gan Therapi AaGIC.

ID	Teitl y Targed i'w Gyflawni	Arwei-nydd	Disgrifiad y Targed i'w Gyflawni	Cynhyrchion i'w cynhyrchu	Llinell amser (gan gynnwys cerrig milltir penodol)	Mesur llwyddiant / Gwerthusiad	Adrannau Eraill Dogfennau Dechrau Prosiect (Nodwch unrhyw fanylion penodol: • Cwmpas ac Eithriadau: • Cyfyngiadau/Rhagdybiaethau: • Rhyngwynebau • Galluogwyr / dibyniaethau: • Risgiau / Problemau • Cynllun cyfathrebu
					lywio C3 a C4 yn cael eu hysbysu i Lywodraeth Cymru. Medi/Hydref cynnal gweithdai ar gyfer pob un o'r pum swyddogaeth allweddol, i gytuno ar 'sut beth yw da' (theori a phrofiad) a manylebau gwasanaeth. Diwedd Hydref 20 – Cynhyrchu'r gyfres ddrafft gyntaf o gynhyrchion. Rhannu gyda'r gweithgor i gael sylwadau. Tachwedd 20 – Y cynnyrch yn destun adolygiad gan y PCCRG. Rhannu â a) HoPC a b) Cyfarwyddwyr Meddygol Cyswllt am fewnbwn Rhagfyr 20 – • Cyflwyno'r cynnyrch ar gyfer cymeradwyaeth gan Fwrdd y Rhaglen Strategol. • Rhyddhau'r cynnyrch terfynol.		Chwe Nod ar gyfer Gofal Brys a Gofal Argyfwng Rhyngwynebau: • Bydd y model yn cael ei lywio gan ddysgu gan: o Adolygiad Right-sizing Community Services o Fframweithiau gweithredol Sylfaenol a Chymunedol o D2RA o Adolygiad Gwasanaethau Ychwanegol o Gwaith Ysbyty Maes o Chwe Nod ar gyfer Gofal Brys a Gofal Argyfwng o Crynodeb Cartrefi Gofal o arfer arloesol a o Capasiti Gofal Iechyd a Chymdeithasol: Grŵp Modelu a Monitro: • Bydd gwaith modelu sydd eisoes wedi'i wneud/ar y gweill yn cael ei ystyried. Cynllun cyfathrebu: Datganiad SPCC Safonol*

ID	Teitl y Targed i'w Gyflawni	Arwei-nydd	Disgrifiad y Targed i'w Gyflawni	Cynhyrchion i'w cynhyrchu	Llinell amser (gan gynnwys cerrig milltir penodol)	Mesur llwyddiant / Gwerthusiad	Adrannau Eraill Dogfennau Dechrau Prosiect (Nodwch unrhyw fanylion penodol: • Cwmpas ac Eithriadau: • Cyfyngiadau/Rhagdybiaethau: • Rhyngwynebau • Galluogwyr / dibyniaethau: • Risgiau / Problemau • Cynllun cyfathrebu
2.9 e	Gofal Sylfaenol Brys/modelau Mynediad	NW	Datblygu Model Galw ar gyfer Gofal Sylfaenol Brys Defnyddio dysgu o nifer o gynlluniau peilot o'r gaeaf diwethaf yng Nghymru a dulliau cenedlaethol eraill. Diffiniad o ofal Sylfaenol Brys/Yr Un Dydd gan fod hyn yn golygu llawer o bethau i wahanol broffesiynau Defnyddio'r model galw i bennu mecanweithiau cyflawni er mwyn gwella trefniadau mynediad Canolbwyntir ar: 1. Pwynt cyswllt cyntaf. Bydd hyn yn cynnwys yr hyn sydd ei angen ar gyfer cefnogi neges gyson a chlir am 'ffonio'n gyntaf'/brysbennu i bennu lefel y cymorth sydd ei angen; beth sydd ei angen ar gyfer cefnogi ymgynghoriadau fideo ac ati. 2. Gofal yr un diwrnod. Nod – ceisio sicrhau gofal brys ar yr un diwrnod a fydd: • o fudd i gleifion	Canllawiau ar fodelu galw Cyfres o fodelau cyflwyno Diffiniad o ofal Sylfaenol Brys/Yr Un Dydd Cynhyrchu model gofal sylfaenol brys i Gymru.	Awst 20 – Sefydlu Grŵp Gorchwyl a Gorffen (NW, CD, CW, AB, RB ac enwebai C&V ynghyd â meddyg teulu) Gwelliant Cymru a chymorth dadansoddol (i'w gadarnhau) Llunio cynllun prosiect. Medi 20 – Cwmpasu ac ymgysylltu (gan gynnwys nodi mesur priodol). Medi 20 – Cwblhau'r gwaith cwmpasu a chynhyrchu'r cynhyrchion drafft cyntaf. Rhannu gyda'r gweithgor i gael sylwadau. Tachwedd 20 - Y PCCRG a'r SPB i gymeradwyo defnyddio'r rhain fel treialon. Rhannu â a) HoPC a b) Cyfarwyddwyr Meddygol Cyswllt am fewnbwn Peilota/treialu modelau yn Ch3 a Ch4 (C&V, AB a BC, o bosib, fel safleoedd peilot). Adolygiad 2-3 mis o'r peilot	I'w gadarnhau	Rhyngwynebau – • Bydd gwaith modelu sydd eisoes wedi'i wneud/ar y gweill yn cael ei ystyried. • Dysgu gan waith cynllunio'r gaeaf (2019-20) • Ymuno'n barhaus â: • Bwrdd Gofal Heb ei Drefnu • Bwrdd Gofal wedi'i Gynllunio • Rhaglen 111 • Rhaglen D2AR • Adolygiad Right-sizing Community Services • Cyfeiriadur Gwasanaethau Cynllun cyfathrebu: Datganiad SPCC Safonol*

ID	Teitl y Targed i'w Gyflawni	Arwei-nydd	Disgrifiad y Targed i'w Gyflawni	Cynhyrchion i'w cynhyrchu	Llinell amser (gan gynnwys cerrig milltir penodol)	Mesur llwyddiant / Gwerthusiad	Adrannau Eraill Dogfennau Dechrau Prosiect (Nodwch unrhyw fanylion penodol: • Cwmpas ac Eithriadau: • Cyfyngiadau/Rhagdybiaethau: • Rhyngwynebau • Galluogwyr / dibyniaethau: • Risgiau / Problemau • Cynllun cyfathrebu
			• yn gwella llif meddygon teulu; a • chefnogi ymweliadau ag adrannau achosion brys y gellir eu hatal neu eu hosgoi. 3. Modelu'r galw yn seiliedig ar setiau data gofal sylfaenol cyfredol a llwybrau gofal brys clir 4. Modelau cyflwyno treialon mewn lleoliadau practis, clwstwr neu ardal		Mawrth 21 - Cynhyrchu'r model.		
2.7	Ymgysylltu â Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol	SM	Ymgysylltu â'r Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol ar ddatblygu'r model 24/7 a'r targed i'w gyflawni. SM i gyflwyno diweddariadau i'r Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol, gyda chefnogaeth Cyfarwyddwr Gofal Sylfaenol a Chymunedol (DoPCC) y Bwrdd Iechyd perthnasol.	Deunydd cyfathrebu (sleidiau / cyflwyniad byr / llafar) ar gyfer y Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol.	Yn barhaus drwy gydol 2020-21 – Cysylltu â'r Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol, gan roi gwybod am y rhaglen waith sydd wedi'i hadnewyddu a datblygiadau.	Tystiolaeth o ymgysylltu â Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol	

* Cynllun Cyfathrebu: Oni nodir yn benodol, bydd pob cynnyrch terfynol yn:

- Cael ei anfon at bob bwrdd iechyd drwy e-bost canolog gan y Swyddfa Rheoli Prosiectau (wedi'i gyfeirio at bob DoPCC a HoPCC)
- Cael ei rannu â'r PCCRG a'r Bwrdd Rhaglen Strategol (wedi'i gopïo yn yr e-bost uchod)
- Cael ei hyrwyddo drwy Drydariad
- Cael ei gynnwys yn y diweddariad ar gyfer Timoedd Cyfathrebu'r Byrddau Iechyd

Mae cyfeirnodau ID at ddibenion olrhain y Swyddfa Rheoli Prosiectau – ni fyddant o reidrwydd yn rhedeg mewn trefn, ac nid ydynt ychwaith yn cynrychioli unrhyw drefn flaenoriaeth .

- Ar gael drwy wefan y Rhaglen Strategol ar gyfer Gofal Sylfaenol
- Yn cael ei adrodd i'r Bwrdd Gofal Sylfaenol Cenedlaethol drwy adroddiadau pigion chwarterol

Targedau i'w Cyflawni a Gwblhawyd (2019-20)

Cyf	Teitl y Targed i'w Gyflawni	Statws a rhesymeg
2.1	Mabwysiadu Cynllun Gweithredu Cenedlaethol Tu Allan i Oriau (**Rownd gyntaf 2018-19**)	Wedi'i gwblhau. Yr holl Adolygiadau Cymheiriaid Tu Allan i Oriau rownd gyntaf wedi'u cwblhau, adroddiadau wedi'u dosbarthu i fyrddau iechyd a dysgu wedi'i gasglu i lywio'r ail rownd.
2.2	Datblygu mentrau cynllun y gaeaf 2019-20	Wedi'i gwblhau a gwerthusiad allanol wedi'i gynnal. Fframwaith a Thempled
2.4	Offeryn Uwchgyfeirio Meddygon Teulu	Wedi'i gwblhau Offeryn Meddygon Teulu yn cael ei ddarparu'n gyflymach. Mae'r offeryn bellach o dan gylch gwaith ffrwd waith Data, Digidol a Thechnoleg er mwyn: • rheoli unrhyw welliannau technegol neu newidiadau i'w swyddogaeth • ystyried manteision cyflwyno'r offeryn i wasanaethau contractwyr gofal sylfaenol eraill.
2.8	Pecynnau cymorth i gefnogi'r Ymateb i COVID-19	Wedi'i gwblhau • Cynllunio Gweithredu Gofal Sylfaenol a Chymunedol ar gyfer COVID-19 • Pecyn Cymorth Optometreg i Gefnogi'r Ymateb i COVID-19 • Pecyn Cymorth Deintyddol i Gefnogi'r Ymateb i COVID-19 • Pecyn Cymorth Fferylliaeth Gymunedol i Gefnogi'r Ymateb i COVID-19

Wedi'i uno / dim angen y targedau i'w cwblhau bellach (ar ôl COVID).

Cyf	Teitl y Targed i'w Gyflawni	Statws a rhesymeg
2.1	Mabwysiadu Cynllun Gweithredu Cenedlaethol Tu Allan i Oriau (**Ail rownd 2019-20**)	Wedi'i gwblhau'n rhannol. Yn 2019, cefnogodd y ffrwd waith ail rownd o adolygiadau cymheiriaid ar gyfer bob bwrdd iechyd. Oherwydd pwysau'r gaeaf a COVID; derbyniodd pump o'r saith bwrdd iechyd eu hadroddiad canfyddiadau. O ganlyniad i COVID a'r dirwedd sydd wedi newid yn sylweddol o ran sut y darperir gofal; ni fydd y ddau adroddiad sy'n weddill yn cynnig unrhyw werth ychwanegol ar hyn o bryd. Mae'r Grŵp Gorchwyl a Gorffen Tu Allan i Oriau (a gynhaliodd yr adolygiadau) wedi cael ei ddileu. Bydd unrhyw waith yn y dyfodol yn cael ei arwain a'i reoli gan y ffrwd waith 24/7.
2.3	Llwybrau gofal sylfaenol Tu Allan i Oriau Cymru gyfan	Mae'r cyd-destun wedi'i ddiwygio h.y. cael gwared ar bennu 'Tu Allan i Oriau' a chroesawu'r model gwasanaeth 24/7. Bydd y dull newydd o lwybrau wedi'u targedu yn cael ei wneud drwy darged i'w gyflawni 2.9d.
2.5	Map o wasanaethau Gofal Sylfaenol mynediad uniongyrchol dan gontract mewn clwstwr neu ardal	Wedi'i uno â thargedau i'w cyflawni 2.9d-e.

Mae cyfeirnodau ID at ddibenion olrhain y Swyddfa Rheoli Prosiectau – ni fyddant o reidrwydd yn rhedeg mewn trefn, ac nid ydynt ychwaith yn cynrychioli unrhyw drefn flaenoriaeth

2.6	Pecyn cymorth brysbennu clinigol	Wedi'i uno â tharged i'w gyflawni 2.9e